




GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board



Pecyn Gwybodaeth 2021
Prentis Llywodraethu Corfforaethol


Beth yw Prentis Llywodraethu Corfforaethol?

- ✓ A ydych am fod yn rhan o dîm sy'n helpu Hywel Dda i roi o'i orau, ac yn ei gynorthwyo i fod yn fwy diogel, cynaliadwy ac effeithiol?
- ✓ A ydych yn barod am her?
- ✓ A fydddech wrth eich bodd yn cael bod mewn swydd lle bydddech mewn cysylltiad ag uwch-arweinwyr ar draws y Bwrdd Iechyd a rhanddeiliaid allweddol?
- ✓ A hoffech ennill arian wrth ddysgu?

Os atebwyd pob un o'r cwestiynau uchod yn gadarnhaol, yna gallai'r rôl hon fod yn addas ar eich cyfer chi!

Mae'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol yn cynorthwyo'r sefydliad i sicrhau ei fod yn gwneud y pethau cywir, yn y ffordd gywir, i'r bobl gywir – mewn modd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodwyd ar gyfer Sector Cyhoeddus Cymru. Mae llywodraethu da o bwys, ac yn gonglfaen i unrhyw fusnes da. Mae sefydliadau llwyddiannus sy'n perfformio'n dda yn elwa ar yr ymdrech a wnânt o ran eu prosesau llywodraethu a rheoli risgiau a'u rheolaeth strategol. Ein rôl yw cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau'r sefydliad i gyflawni ei nodau, rheoli ei risgiau, sicrhau cydymffurfedd â deddfwriaeth/safonau a chyflawni'i ymrwymïadau o ran atebolrwydd i'w rhanddeiliaid (e.e. cleifion, y boblogaeth leol, rheoleiddwyr, y llywodraeth) trwy fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw wrth wneud penderfyniadau.

Rydym yn chwilio am ymgeiswyr rhugl ac uchelgeisiol, sydd â lefel uchel o uniondeb personol, a fyddai'n dymuno datblygu gyrfa mewn Llywodraethu Corfforaethol, sy'n faes arbenigol sydd ar gynydd. Byddai angen i'r ymgeisydd llwyddiannus allu croesawu ag angerdd holl werthoedd y Bwrdd Iechyd gan y bydd hyn wrth galon popeth a wna.



Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn gyfle cyffrous a fydd yn eich galluogi i hyfforddi i ddod yn aelod gwerthfawr o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol trwy ddysgu seiliedig ar waith. Byddwch yn dechrau arni trwy gwblhau Prentisiaeth Sylfaen mewn Gweinyddu Busnes (lefel 2), ac yna'n symud yn eich blaen i wneud Prentisiaeth mewn Gweinyddu Busnes (lefel 3) a Phrentisiaeth Uwch mewn Rheoli Prosiectau (lefel 4), cyn ymgymryd ag addysg prifysgol ar drefniant rhan-amser.

Sut y mae'r Rhaglen Llywodraethu Corfforaethol yn wahanol i raglenni prentisiaethau eraill?

Mae'r Rhaglen Prentisiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn cyfuno amryw o raglenni dysgu yn un, gan ddarparu llwybr uniongyrchol i ddod yn Swyddog Llywodraethu Corfforaethol. Bydd yn caniatáu i chi ennill ystod eang o brofiadau, ac i ennill arian trwy gydol yr amser y byddwch yn dysgu.

Amlinelliad o'r Rhaglen Prentisiaeth Llywodraethu Corfforaethol					
Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes	Medi 2021 hyd at Fedi 2022				Isafswm Cyflog Prentisiaeth Cenedlaethol
Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes		Medi 2022 hyd at Mawrth 2024			£14,799 y flwyddyn, gan gynyddu i £15,865 ar ôl 6 mis
HND Busnes a Rheoli			Medi 2024 hyd at Gorffennaf 2027		£16,909 y flwyddyn, gan gynyddu i £18,117 y flwyddyn
Swyddog Llywodraethu Corfforaethol				Gorffennaf 2027	Band 5 £24,907

*Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yr hawl i addasu'r cymwysterau ar sail newidiadau i gymwysterau, gofynion y sector neu gyllid.

*Roedd cyfraddau'r cyflogau yn gywir ym mis Rhagfyr 2020.

Beth y mae'r Rhaglen Prentisiaeth Llywodraethu Corfforaethol yn ei gynnwys?

- Byddwch yn ymgymryd â chwrs cynefino cynhwysfawr, a fydd yn eich paratoi ar gyfer eich rôl yn y Bwrdd Iechyd
- Byddwch yn cael 'hyfforddiant y tu allan i'r gwaith' i ddatblygu eich dysgu
- Byddwch yn cael cymorth gan fentor o'r coleg
- Byddwch yn mynd i weithdai, lle bydd gennych gyfle i drafod a rhannu syniadau
- Byddwch yn gweithio tuag at gael cymwysterau galwedigaethol, gan symud trwy'r lefelau wrth i chi ddatblygu
- Bydd gennych gyfle i gysgodi aelodau o'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol, a hynny'n rhan o'r broses gynefino
- Bydd mentor yn cael ei ddynodi ar eich cyfer yn y gweithle, i'ch cynorthwyo ac i helpu i feithrin eich sgiliau trwy gydol eich rhaglen

Beth y byddwch yn ei wneud yn eich rôl?

Byddwch yn ymgymryd â nifer o leoliadau gwaith ar sail cylchdro a fydd yn ategu eich hyfforddiant, a hynny dan oruchwyliaeth:

Maes gwaith y cylchdro	Diben a deilliannau dysgu disgwylidig
Tîm y Cynorthwydd Personol Gweithredol	Bydd gweithio ochr yn ochr ag aelodau Tîm y Cynorthwydd Personol Gweithredol yn rhoi dirnadaeth i chi o'r Bwrdd Iechyd, ei werthoedd a'i ddiwylliant. Byddwch yn gweithio gyda mentor i feithrin eich sgiliau clercol, gan ddarparu cymorth yn y dderbynfa a chymorth gweinyddol i aelodau'r Tîm Gweithredol ac Aelodau Annibynnol.
Y Tîm Gohebiaeth	Bydd y rôl hon yn gwella eich dealltwriaeth o'r Bwrdd Iechyd a'i waith ymhellach. Byddwch yn cynorthwyo'r Tîm Gohebiaeth i ymateb i lythyrau a cheisiadau am wybodaeth, ac yn rhyngweithio â staff ar bob lefel ar draws y sefydliad. Bydd hyn yn eich galluogi i ymglyfarwyddo â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (2000) a'i phwysigrwydd yn y sector cyhoeddus. Mae didwylledd a thryloywder yn

	bwysig yn y mudiad, a bydd hyn amlygu sut yr ydym yn cynnal perthnasoedd ac yn meithrin ymddiriedaeth.
Tîm Gwasanaethau'r Pwyllgorau	Bydd y rôl hon yn eich cyflwyno i'r Bwrdd a Phwyllgorau'r sefydliad. Wrth weithio'n agos â Chyfarwyddwyr Gweithredol Arweiniol a Chadeiryddion o blith yr Aelodau Annibynnol, byddwch yn meithrin eich sgiliau gweinyddol ymhellach. Bydd hyn yn cynnwys paratoi, coladu a dosbarthu papurau'r Pwyllgorau. Byddwch yn cael eich hyfforddi i gymryd cofnodion ffurfiol a'u trawsgrifio, ac i feithrin sgiliau ysgrifennu adroddiadau ffurfiol a rheoli prosiectau a fydd o gymorth i'ch gyrfa yn y dyfodol.
Y Tîm Sicrwydd a Risg	Bydd y lleoliad gwaith hwn yn eich galluogi i feithrin dealltwriaeth o Fframwaith Rheoli Risgiau a Sicrwydd y Bwrdd Iechyd. Wrth weithio gyda mentor byddwch yn meithrin dealltwriaeth o brosesau rheoli risgiau, yn cynnwys asesiadau risg.
Y Tîm Cyfreithiol Corfforaethol a Materion Cyhoeddus	Mae'r tîm hwn yn gyfrifol am ddarparu cyngor Cyfreithiol Corfforaethol, yn benodol mewn perthynas â chytundebau a contractau â'r Bwrdd Iechyd. Bydd yn eich galluogi i ddeall pwysigrwydd cytundebau cyfreithiol diamwys ac i feithrin dealltwriaeth sylfaenol o gyfraith contractau. Yn ogystal, bydd gennych rywfaint o gyswllt â gwleidyddion lleol.

Trosolwg o'r Rhaglen

Prentisiaeth Sylfaen Lefel 2 (12 mis)

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r elfennau canlynol:

- Cwrs Cynefino'r Prentisiaeth (Coleg)
- Cwrs Cynefino Corfforaethol
- Cwrs Cynefino Tîm
- Adolygu cynnydd bob 61 diwrnod
- Modiwlau Hyfforddiant e-ddysgu Gorfodol
- Cymraeg yn y Gweithle
- Sgiliau Astudio

- Cymorth gydag unrhyw anghenion dysgu
- Cymorth gan Fentor a mynediad at swyddogion lles (yn cynnwys tai, ariannol, llesiant)

Mae'r Brentisiaeth yn cynnwys y cymwysterau canlynol:

- Lefel 2 mewn Gweinyddu Busnes
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 1 mewn Llythrennedd Digidol

Prentisiaeth Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes (18 mis)

Bydd yr unigolion yn cwblhau'r elfennau canlynol:

- Diploma Lefel 3 mewn Gweinyddu Busnes
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cymhwyso Rhif
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Cyfathrebu
- Sgiliau Hanfodol Lefel 2 mewn Llythrennedd Digidol

HND mewn Busnes a Rheolaeth (4 blynedd – Rhan-amser)

- Cyfuniad o ddulliau dysgu cyfunol rhan-amser
- Dysgu yn y gwaith

Beth yw'r gofynion mynediad?

Rhaid i chi fodloni'r rhestr isod:

- Yn frwd dros degwch, gonestrwydd a didwylledd
- Yn 16 oed neu'n hŷn ym mis Medi 2021
- Wedi bod yn byw yn y Deyrnas Unedig/yr Ardal Economaidd Ewropeaidd am y tair blynedd ddiwethaf
- Yn meddu ar safon dda o lythrennedd a gramadeg, ac yn rhoi sylw i fanylion a chywirdeb
- Yn barod i ddefnyddio eich blaengaredd eich hun ac i weithio'n annibynnol ac yn rhan o dîm
- Yn gallu cyd-dynnu'n dda â phobl ar bob lefel, ac yn medru cyfathrebu'n effeithiol

- Yn meddu ar brofiad o ddefnyddio pecynnau TG, gan gynnwys Microsoft Word, Excel ac Outlook

Ni ddylech fod yn :

- Meddu ar gymhwyster Lefel 2 neu uwch mewn Gweinyddu Busnes
- Ymgymryd ag unrhyw addysg ffurfiol a ariennir gan y llywodraeth ar adeg dechrau'r Rhaglen Prentisiaeth Llywodraethu Corfforaethol

Sut yr wyf yn gwneud cais?

Rydym yn bwriadu recriwtio dau Prentis Llywodraethu Corfforaethol, a fydd yn cael ei leoli yn ein Pencadlys yng Nghaerfyrddin.

Os hoffech wneud cais i fod yn Brentis Llywodraethu Corfforaethol, ewch i'r wefan NHS Jobs neu i wefan Hywel Dda:

<https://biphdd.gig.cymru/swyddi/>

Sicrhewch nad ydych yn colli'r dyddiad cau, a chofiwch ddarllen yr hysbyseb yn ofalus. Yna, llenwch y ffurflen gais a'i hanfon!

Pob Lwc!

Beth sy'n digwydd nesaf?

Ar ôl y dyddiad cau, estynnir gwahoddiad i'r rheiny a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer yn llwyddiannus ddod i ddiwrnod asesu. Bydd hwn yn ddigwyddiad anffurfiol ac yn gyfle i chi gwrdd â ni, yn ogystal â chael rhagor o wybodaeth am y rhaglen a'r swydd.

Pryd y byddwch yn cael adborth?

Bydd pawb sy'n dod i'r bore asesu yn cael gwybod ac yn cael adborth. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn dechrau ar eich cyflogaeth yn rôl Prentis Llywodraethu Corfforaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ym mis Medi 2021.

Pa ddogfennau y bydd arnoch eu hangen cyn y gallwch ddechrau?

Er mwyn sicrhau y gallwn ddarparu proses recriwtio sy'n effeithlon ac yn ddiogel, gofynnir i chi ddod â'r ddogfennaeth isod (cofiwch ddarllen hwn yn ofalus):

- Prawf o'r hawl i weithio yn y Deyrnas Unedig
- Prawf o hunaniaeth
- Tystiolaeth ar gyfer gwiriad y DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)

Dyddiadau Allweddol

Yr hysbyseb yn fyw: 29 Mawrth 2021
Dyddiad cau: 11 Ebrill 2021
Dyddiad llunio rhestr fer: 12 April 2021
Diwrnod Dethol: 18 Mai 2021
Diwrnod Adborth: 24 Mai 2021
Dyddiad Dechrau: 22 Medi 2021

Pam y dylech weithio i ni?

Pam y dylech wneud cais am brentisiaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda? Dyma rai o'r rhesymau dros wneud hynny:

- Mae prentisiaethau'n ffordd wych o ddechrau ar yrfa yn y GIG
- Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol â chyflogaeth sy'n talu ('ennill wrth ddysgu')
- Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â staff profiadol a fydd yn eich cefnogi ac yn eich helpu i feithrin y sgiliau ymarferol y mae arnoch eu hangen

- Byddwch yn ennill cymwysterau sy'n cael eu cydnabod yn genedlaethol, a hynny heb dalu ffioedd dysgu
- Byddwch yn cael 27 diwrnod o wyliau â thâl y flwyddyn, yn ogystal â Gwyliau Cyhoeddus ychwanegol
- Bydd eich hawl i wyliau yn cynyddu'n unol â'ch gwasanaeth
- Mae gweithio'n rhan o dîm yn brofiad gwych, ac yn gwneud gwahaniaeth go iawn

**Buddsoddwch yn eich dyfodol. Dewch i ymuno â theulu Hywel Dda.
Nid oes yr un lle gwell i #HyfforddiGweithioByw**

Beth y dylwn ei wneud os oes gennyf gwestiwn?

Os hoffech wybod mwy am y rôl, cysylltwch â Charlotte Beare trwy anfon neges e-bost i:

Charlotte.beare@wales.nhs.uk

Ar gyfer ymholiadau sy'n ymwneud â chymwysterau neu brentisiaethau, cysylltwch â'r Academi Brentisiaeth trwy anfon neges e-bost i:

apprenticeship.academy@wales.nhs.uk neu ffonio 07971 480755